**Pwyllgor y De-orllewin SWWR-02-00(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener, 17 Mawrth 2000 | |
| **Amser:** | 10.00 am i 1.00pm | |
| **Lleoliad:** | Pafiliwn De Valence, Dinbych-y-pysgod | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| | Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Alun Michael | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| **Cyflwynwyr:** | Jonathan Jones | Bwrdd Croeso Cymru – Yn cynrychioli Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru. |
| | John Harrison | Twristiaeth De a Gorllewin Cymru |
| | Philip James | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| | Anne Moazzen | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| | Ieuan Williams | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |
| | Carol Green | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe |

| | |
|---|---|
| Lorraine Miles | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| Jane Westlake | Clerc |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

| | |
|---|---|
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Andrew Davies | Dwyrain Abertawe |
| Val Feld | Dwyrain Abertawe |
| David Rhys Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Edwina Hart | Gwyr |

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i Bafiliwn De Valence, Dinbych-y-pysgod, gan ddiolch iddynt am ddod.

**Eitem 2 : Sesiwn Microffon Agored**

<u>Rhagarweiniad</u>

2.1 Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ofyn cwestiynau i'r Pwyllgor. Rhoddodd aelodau'r Cynulliad yr atebion canlynol i gwestiynau o'r oriel gyhoeddus:

**2.2 Cyflwynodd Mr Gareth Davies, yn cynrychioli Ymgyrch Senedd i Gymru, sylwadau parthed yr angen i'r Cynulliad gael y pë er i greu deddfwriaethau sylfaenol ac i egluro ei bwerau i greu deddfwriaethau eilaidd. Roedd yn bryderus y gallai llywodraeth San Steffan dynnu rhai pwerau yn ôl. Gofynnodd beth gellid ei wneud nawr i wella'r sefyllfa a helpu gwyrdroi'r dirywiad yn amgyffrediad y cyhoedd o allu a pherfformiad y Cynulliad.**

Ymateb

2.2.1 Nid oedd unrhyw argymhellion i dynnu unrhyw bwerau deddfwriaethu eilaidd oddi ar y Cynulliad.

2.2.2 Roedd y Cynulliad yn dal i ymsefydlu, ond byddai’n dangos y gallai ddefnyddio ei bwerau’n effeithiol.

2.2.3 Roedd angen i Aelodau’r Cynulliad fod yn ymwybodol o unrhyw fesurau oedd yn mynd gerbron San Steffan yn gynnar fel y gallent gael mewnbwn, ac felly sicrhau deddfwriaeth sylfaenol a diwygio deddfwriaeth bresennol fel ei bod yn fwy priodol i Gymru.

2.2.4 Roedd angen i’r Pwyllgorau ganolbwyntio’n effeithiol a bod yn glir am yr hyn y gallant ei gyflawni.

**2.3 Gofynnodd Mr Ian Bell, Cymdeithas Gwestai a Bwytai Sir Benfro, pam na fyddai’r Cynulliad yn penodi Gweinidog Twristiaeth, a ellid neilltuo adnoddau awdurdodau lleol ar gyfer cefnogi twristiaeth; ac a ddylai’r sector preifat ffurfio partneriaethau cyfartal ag awdurdodau unedol i wneud cais am arian Amcan 1, neu wneud ceisiadau annibynnol.**

Ymateb

2.3.1 Roedd gan Rhodri Morgan, fel Ysgrifennydd Datblygiad Economaidd y Cynulliad, gyfrifoldeb dros dwristiaeth a hefyd, fel Prif Ysgrifennydd, roedd yn gyfrifol am ddelwedd Cymru.

2.3.2 Nod y Cynulliad oedd gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Cydnabuwyd bod Sir Benfro yn cymryd twristiaeth o ddifrif a bod gan yr awdurdod lleol adrannau penodol i ymdrin â thwristiaeth.

2.3.3 Roedd yn bwysig, fel cyrff wedi eu hethol yn gyhoeddus, bod gan yr awdurdodau lleol yr hawl i benderfynu sut i ddyrannu arian orau. Byddai hyn yn dod i ben os byddai arian yn cael ei neilltuo ar gyfer ardaloedd penodol.

2.3.4 Amlygwyd y cysylltiadau rhwng twristiaeth a datblygiad gwledig, roedd angen cyfannu twristiaeth i waith y Cynulliad a’i bartneriaid.

**2.4 Gofynnodd Mr Mike Thorne, Cadeirydd 20-20 Dinbych-y-pysgod a fyddai arian Amcan 1 ac arian arall o fewn cylch gorchwyl y Cynulliad yn mynd tuag at sefydliadau gwirfoddol, neu a fyddai’n cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i unioni diffygion yn eu cyllidebau.**

Ymateb

2.4.1 Cydnabuwyd bod Cymru yn parhau ar lefelau gwahanol ar drywydd arian Amcan 1 a thra bod rhai awdurdodau lleol wedi datblygu'n dda roedd eraill yn arafach yn mynd i'r afael â'r ymagwedd partneriaeth. Fodd bynnag, os oedd adnewyddu i lwyddo, partneriaethau lleol a'r sectorau preifat a gwirfoddol oedd y ffordd ymlaen.

**2.5 Gofynnod Ken Skippins pwy oedd wedi penderfynu ar y dyraniad arian i awdurdodau iechyd, beth oedd 3 blynedd yn ôl a'r hyn yr oedd heddiw.**

Ymateb

2.5.1 Derbyniodd y Cynulliad grant bloc a'r Cabinet a benderfynodd ar y ffordd y byddai'n cael ei ddyrannu, gyda'r symiau mwyaf yn mynd i iechyd a llywodraeth leol.

2.5.2 Roedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn edrych ar y ffordd roedd arian yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau iechyd, ac yn ystyried y ffordd y gellid cynnwys ffactorau megis cefn gwlad ac amddifadedd i'r fformwla dyrannu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

2.5.3 Roedd adnoddau'n cael eu cynyddu ond roedd angen targedu ardaloedd oedd â'r angen mwyaf o ran iechyd.

2.5.4 Roedd arolwg o sefyllfa'r NHS wedi amlygu graddau'r problemau o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Roedd parodrwydd o fewn y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac roedd cryn dipyn o waith wedi ei wneud eisoes.

2.5.5 Cydnabuwyd oherwydd y cynnydd mewn galw ar ariannu y Gwasanaeth Iechyd byddai y broblem bob amser ond roedd gwersi i'w dysgu o gamgymeriadau yn y gorffennol a gwell strwythurau a disgyblaethai ariannol wedi eu cyflwyno.

Gweithredu

Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Mr Skippins â gwybodaeth am ddyraniad 1997 a'r dyraniad presennol.

**2.6 Cyfeiriodd Mr Paul Webber, Siambr Fasnach Sir Benfro, at gyflwyniad a wnaed gan Mr Richard Crawshaw o Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru i Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin ar 10 Rhagfyr 1999. Cyfeiriodd at y ffaith bod y lefelau is-ranbarthol ar gyfer amcan 1 yn gydffiniol â ffiniau'r WDA a rhai'r Ffora Economaidd. Gofynnodd Mr Weber am gymhwyster Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru i ymgymryd â rôl rheoli project yn rhaglen Amcan 1, gan ystyried nad oedd gan y fforwm y cydbwysedd angenrheidiol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a**

**gwirfoddol ymysg ei aelodau. Roedd hefyd yn bryderus y gallai ardaloedd mwy trefol De Orllewin Cymru, fel Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot, ddenu'r rhan fwyaf o'r arian ar draul ardaloedd gwledig fel Sir Benfro.**

Ymateb

2.6.1 Roedd rhan Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru i'w chanmol ond nid oedd hynny yn eithrio grwpiau a mentrau lleol eraill.

2.6.2 Roedd y Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio rhanbarth trwy ddadansoddiad ystadegol GDP. Fodd bynnag, roedd yn glir bod gwahaniaethau mawr rhwng ardaloedd oedd angen cefnogaeth yn nhermau datblygu eu GDP. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn ar wahanu a diffinio ardaloedd.

Gweithredu :

Byddai'r Clerc yn trefnu i Mr Weber dderbyn ateb ysgrifenedig manylach i'w gwestiwn.

**2.7 Gofynnodd Mr Malcolm Carver i'r aelodau roi sylwadau am yr arallgyfeirio gan ddiwydiannau eraill, yn enwedig ffermio, i mewn i dwristiaeth. Mynegodd bryder am effaith cynnydd sylweddol yn y gyfradd fusnes a chost tanwydd ar dwristiaeth.**

Ymateb

2.7.1 Roedd ffermwyr yn cael eu hannog i arallgyfeirio i sawl maes i wneud arian, nid twristiaeth yn unig. Mewn sioeau teithiol diweddar ar arallgyfeirio gwledig nid oedd gan dwristiaeth brif ran yn y drafodaeth.

2.7.2 Roedd angen i'r diwydiant twristiaeth dargedu marchnadoedd penodol er mwyn cystadlu â gwyliau rhad dramor.

**2.8 Gofynnodd Caroline Evans pam na allai Cymru fod yn rhydd o gnydau wedi eu haddasu'n enetig.**

Ymateb

2.8.1 Nid oedd unrhyw brofion maes ar gnydau GM yn cael eu cynnal yng Nghymru. Roedd profion yn cael eu cynnal mewn amgylchedd wedi ei reoli yn Uned Glaswelltir IGER yn Aberystwyth.

2.8.2 Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau hyd yn hyn i gynnal treialon maes yng Nghymru.

Byddai’r Cynulliad yn ystyried unrhyw gais ar ei haeddiant.

2.8.3 Roedd y Prif Ysgrifennydd wedi trosglwyddo cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau i Ysgrifennydd Amaeth y Cynulliad. Roedd y Pwyllgor Amaeth yn chwarae rhan bwysig wrth ystyried tystiolaeth a goblygiadau cyfreithiol a chynghori’r Ysgrifennydd Cynulliad.

**Eitem 3 Twristiaeth ac Economi De Orllewin Cymru**

**Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru**

**Papur:** SWWR-02-00(p.1)

Cyflwyniad gan Jonathan Jones, Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru

3.1 Amlygodd Jonathan Jones rai o’r problemau roedd y diwydiant yn eu hwynebu yng Nghymru. Y pwyntiau oedd:

i. bod twristiaeth yn cyfrannu 7% o’r GDP yng Nghymru o’i gymharu â 5% yn Lloegr a 6% yn Iwerddon;
ii. crëwyd 100,000 o swyddi yng Nghymru trwy dwristiaeth;
iii. derbyniodd Gymru gyllideb o £15m ar gyfer twristiaeth, tra bod yr Alban wedi derbyn cynnydd o £11m i’w cyllideb o £20m yn ddiweddar ac Iwerddon wedi cyhoeddi cyllideb farchnata o £150m ar gyfer y chwe blynedd nesaf;
iv. roedd twristiaeth busnes eisoes yn faes i’w ddatblygu yn y dyfodol;
v. roedd y cyswllt rhwng amaethyddiaeth a thwristiaeth yn bwysig os oedd Cymru i gynnal ei thirwedd, ei hamgylchedd, ei diwylliant a’i hiaith;
vi. y prif reswm y mae pobl yn dod i Gymru ar wyliau oedd y diwylliant;
vii. roedd angen mwy o arian marchnata i hyrwyddo Cymru;
viii. roedd angen targedu marchnata mewn marchnadoedd nyth, megis gwyliau gweithgaredd a diddordeb arbennig.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

**Papur:** SWWR-02-00(p.2)

Cyflwyniad gan Philip James, Rheolwr Ardal De Ddwyrain Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

3.2 Amlinellodd Philip James gefndir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sawl un o’r projectau y buont yn gysylltiedig â hwy. Y pwyntiau allweddol oedd:

i. prif amcan unrhyw strategaeth twristiaeth ddylai fod i ddiogelu yr amgylchedd y mae twristiaeth yn dibynnu arno;

ii. byddai'r fenter 'Twristiaeth Ofalus' a oedd yn gweithredu ym Mannau Brycheiniog ac Eryri ar hyn o bryd yn cael ei hymestyn. Roedd y fenter yn darparu cyswllt dwy ffordd, cadarnhaol â thwristiaid ac yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal yr ased roeddent yn ymweld ag ef tra'n rhoi cyfle i dwristiaid wneud cyfraniad uniongyrchol;
iii. roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhoi pwyslais mawr ar hyfforddiant i ddarparu cyflwyniad, gofal ymwelwyr a gwybodaeth o ansawdd uchel;
iv. roedd ansawdd cynnyrch yn hanfodol mewn marchnad gystadleuol danbaid;
v. er yn un o asedion mwyaf Cymru, gallai pobl fod yn un o'i fygythiadau mwyaf hefyd.

**Twristiaeth De a Gorllewin Cymru**

**Papur:** SWWR-02-00(p.3)

<u>Cyflwyniad gan John Harrison, Pennaeth Datblygu Cynnyrch, Twristiaeth De a Gorllewin Cymru</u>

3.3 Amlinellodd John Harrison Strategaeth Twristiaeth De Orllewin Cymru. Y prif bwyntiau oedd:

i. roedd Twristiaeth De a Gorllewin Cymru yn gyfyngedig trwy warant, yn cynnwys tua 1400 o aelodau masnach o bob rhan o'r diwydiant twristiaeth ar draws y rhanbarth ac yn un o dri Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol. Roedd pob Awdurdod Lleol hefyd yn aelodau;
ii. roedd ymdrech yn cael ei gwneud i ymestyn y bartneriaeth i gynnwys cyfran fwy o gyrff sector preifat a gwirfoddol yn y broses o wneud penderfyniadau;
iii. roedd gweithredu'r strategaeth yn cael ei gyflwyno ar sail ymarferol, gan geisio cytundeb gan y bartneriaeth ar feysydd y gellid eu darparu yn lleol a'r rheini a fyddai'n gofyn am ymagwedd ranbarthol neu genedlaethol.
iv. Roedd 12 ardal farchnata yn cefnogi 'brand' Cymru yng Nghymru ar hyn o bryd;
v. y brif nod oedd sicrhau bod ymwelwyr i Gymru yn cael gwyliau gwych, yn dychwelyd ac yn dod â'u teuluoedd a'u ffrindiau gyda hwy.

<u>Prif Bwyntiau'r Drafodaeth</u>

3.4 Roedd yn rhaid i unrhyw un oedd am gael ei raddio fynd trwy system y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol (RTC), ond gallent wneud hynny heb ddod yn aelod o'r RTC. Roedd y Swyddfa Masnachu Teg ar hyn o bryd yn archwilio'r arfer presennol o roi gostyngiadau i aelodau.

3.5 Roedd y galw am wyliau seiclo a cherdded wedi creu cyfle i'r diwydiant ac roedd hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

3.6 Roedd angen i westai oedd am ymestyn i'r farchnad "hí n" ddarparu llety a chyfleusterau addas.

3.7 Roedd angen hyrwyddo Cymru dramor yn yr un ffordd â'r Alban ac Iwerddon. Roedd angen i 'ddelwedd' Cymru fod yn ystyrlon yn y farchnad a dylai fod yn dderbyniol i fasnach ac i'r boblogaeth.

3.8 Gofynnodd Jonathan Jones i’w gydweithwyr marchnata ddarganfod pam nad oedd "lastminute.com" yn darparu unrhyw gynnyrch o’r DU. Roedd hefyd wedi cyflwyno cais am arian i’r Cynulliad ar gyfer ‘system rheoli cyrchfan’ a fyddai’n gwneud archebu’n haws.

3.9 Cynhaliwyd cynhadledd rhyng-Geltaidd yn Abergwaun yn ddiweddar. Daeth hyn â phobl i gysylltiad â diwylliant lleol ac roedd yn argoeli’n dda ar gyfer cydweithrediad ag Iwerddon yn y dyfodol. Roedd cyfarfod i’w gynnal cyn bo hir i ystyried cyd-ddigwyddiadau pellach.

3.10 Dywedodd Jonathan Jones fod y Bwrdd Croeso yn ymwybodol o fanteision symud o safbwynt Llundeinig ond nid oedd y targedau a osodwyd gan ei gorff noddi yn nodi sut y dylid gwneud hyn. Yn ei farn ef, roedd angen gweinidogion yn San Steffan a oedd wedi derbyn cyfarwyddyd da i gynrychioli Cymru.

3.11 Byddai Bwrdd Croeso Cymru yn anelu am Cwpan Ryder 2009 i gael ei gynnal yng Nghymru.

3.12 I fod yn gymwys am grant gan Fwrdd Croeso Cymru roedd angen o leiaf £7,000 o arian cyfalaf. Mae tua 70-75% o’r £3.5m o gyllidebau grantiau cyfalaf blynyddol wedi ei ddyrannu mewn cyfrannau o lai na £25,000.

3.13 I oresgyn y broblem o dymoroldeb, roedd angen i’r diwydiant ymestyn i farchnadoedd nad oedd yn ddibynnol ar wyliau ysgol na’r tywydd e.e twristiaeth busnes, cynadleddau, gwyliau chwaraeon.

Gweithredu

3.14 Byddai Jonathan Jones yn darparu ffigurau i’r Pwyllgor yn cyfeirio at farchnadoedd nyth.

3.15 Byddai Jonathan Jones yn darparu dadansoddiad o’r grantiau a gymeradwywyd gan Fwrdd Croeso Cymru.

**Eitem 4: Cyfraniad i Gymuned y Sector Gwirfoddol yn Ne Orllewin Cymru**

**Papur:** SWWR-02-00(p.4)

Cyflwyniad gan:

Lorraine Miles Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Ieuan Williams Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin

Anne Moazzen Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Carol Green Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

4.1 Derbyniodd y pwyllgor gyflwyniad ar swyddogaeth a gwaith Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru, cyfraniad gwirfoddoli o fewn cymunedau, a swyddogaeth y sector gwirfoddol ar bob agwedd o waith cymunedol, gan gynnwys datblygiad cymunedol ac adnewyddu economaidd. Y prif bwyntiau oedd:

i. roedd y sector gwirfoddol yn annibynnol ac nid oedd yn cael ei redeg er budd personol, Roedd yn hunan-lywodraethol, yn ddyngarol ac yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr i ymateb i faterion yn ymwneud ag ansawdd bywyd. Roedd yn aml yn gallu ymdrin â materion na allai'r sector cyhoeddus ymdrin â hwy.
ii. roedd angen gwell seilwaith ar y sector gwirfoddol i gefnogi ei waith;
iii. roedd angen ymagwedd haenol fel bod CGS nid yn unig yn gweithio o fewn y gymuned ond hefyd yn cael eu rhwydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
iv. roedd angen hyrwyddo'r sector gwirfoddol, gyda phwyslais arbennig ar werth ac amrywiaeth gweithgareddau ar draws Cymru;
v. roedd CGS yn gobeithio datblygu cysylltiadau â'r Cynulliad, trwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

<u>Prif Bwyntiau'r Drafodaeth</u>

<u>Gwnaeth y cyflwynwyr y pwyntiau canlynol mewn ymateb i'r aelodau</u>

4.2 Amcan 1

4.2.1 Roedd Awdurdodau Unedol yn ceisio cynnwys amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl wrth sefydlu grwpiau partneriaeth lleol. Fodd bynnag, byddai angen seilwaith a chymorth technegol i gynnwys y sector gwirfoddol

4.2.2 Roedd angen gweld Amcan 1 fel rhan o raglen tymor hwy, ac roedd angen ychwanegu at yr agwedd adnewyddol.

4.2.3 Roedd proformas wedi eu cyhoeddi i sefydliadau gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin a Chastell Nedd Port Talbot mewn ymgais i gyrraedd grwpiau llai a darganfod eu cynlluniau i'r dyfodol.

4.2.4 Cynhaliwyd sesiynau cyfarwyddyd i hysbysu'r sector gwirfoddol o'r datblygiadau diweddaraf, a'r cam nesaf fyddai sefydlu grwpiau lleol.

4.3 Croesawyd menter y Fargen Newydd fel un gadarnhaol iawn.

4.4 Byddai sefydliad gwirfoddol da yn llofnodi contractau gyda gwirfoddolwyr i helpu atal ecsbloetiad. Roedd hyn yn faes y gallai’r CGS ddarparu cyngor arno i sefydliadau gwirfoddol.

4.5 Roedd y cynnydd ar Gytundebau’r Sector Gwirfoddol fel a ganlyn:

4.5.1 Roedd Cytundebau Sector Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth NHS yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yr wythnos honno; roedd Cytundeb Grë p Iechyd Lleol yn dal i gael ei ddrafftio.

4.5.2 Roedd Cytundeb Awdurdod Lleol Sir Benfro yn cael ei greu ar hyn o bryd, roedd Cytundeb Ymddiriedolaeth NHS ar ei ffurf derfynol ac roedd drafft cychwynnol Cytundeb GILl gyda’r GILl ar gyfer rhoi sylwadau.

4.5.3 Roedd Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot wedi ei lofnodi dwy flynedd yn flaenorol ac roedd yn cael ei arolygu ar hyn o bryd, roedd y Cytundeb gyda’r GILl wedi ei lofnodi ym mis Rhagfyr.

4.6 Roedd gwaith yn cael ei gynnal i ddatblygu ‘Cyfeirlyfr Partneriaeth’ i gynyddu ymwybyddiaeth am bartneriaethau oedd eisoes yn bodoli, eu swyddogaeth yn datblygu strategaethau a’r ffordd roeddent yn rhyngweithio gyda’i gilydd.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf (8 Hydref 1999)**

**Papur:** SWWR-03-99(min)

5.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o’r cyfarfod, gydag un diwygiad: roedd angen gwahanu ail frawddeg y pwynt bwled cyntaf o dan "ymatebion y sefydliad" i ddarllen:

- "ymatebodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot trwy bwysleisio safbwynt Cymreig ar gyfer cefn gwlad. Dywedodd y byddai’r goedwigaeth yn aros y tu hwnt i reolaeth cynllunio. Cytunodd y Cyngor â’r angen i gyfnewid planhigfeydd conwydd â choed pren caled;

- dylid datblygu ar safleoedd tir llwyd er mwyn lleddfu’r pwysau ar dir glas. Nododd y Cyngor bod y broses ariannu yn hanfodol."

5.2 Amlinellodd Peter Black agenda drafft y pwyllgor ar gyfer y cyfarfod nesaf a fyddai’n cael ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn ar 14 Ebrill:

Amaeth-fwydydd

Cyflwyniad gan Dë r Cymru; a

Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru (pwnc i’w gytuno)